CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

Dyddiad y cyfarfod: **19 Gorffennaf 2024**

Teitl: **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**

Pwrpas yr adroddiad: **Diweddaru'r Pwyllgor ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**

Cefndir

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar unrhyw honiadau o dorri Cod Ymddygiad statudol yr awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig o Gynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistrefol a Chynghorau Cymuned yng Nghymru gan gynnwys Awdurdodau Tân a Pharciau Cenedlaethol.

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 06 Mawrth 2024 mae Panel Dyfarnu Cymru wedi cyhoeddi'r eitemau canlynol:

Cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:
1)**Cyn-Gynghorydd Emma McNamara-Cyngor Cymuned y Mwmbwls**
pdc-penderfyniad-adroddiad-mcnamara_0.pdf (gov.wales)

Natur yr honiad: Amodau paragraff 6(1)(a) wedi cael eu torri
Gwrandawiad: 18 Mawrth 2024

Penderfyniad y Tribiwnlys: Amodau paragraff 6(1)(a) heb gael eu torri

2)**Cynghorydd Bernie Attridge**
Cyngor Sir y Fflint Cyngor Tref Cei Connah
pdc-penderfyniad-adroddiad-bernie-attridge.pdf (gov.wales)
Natur yr honiad: Amodau'r paragraffau canlynol wedi cael eu torri: 4(b), 4(c), 4(d), 5(a), 6(1)(a), 7(a), 11(2)(a) a 14(1)(d)

Penderfyniad y Tribiwnlys: Amodau'r paragraffau canlynol wedi cael eu torri 4(b), 4(c), 5(a), 6(1)(a) a 7(a). Amodau'r paragraffau canlynol heb gael eu torri 4(d), 11(2)(a) a 14(1)(d)

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad unfrydol mai'r gosb briodol ym mhob un o'r amgylchiadau oedd atal yr Atebydd rhag gweithredu fel aelod o'r awdurdodau perthnasol am gyfnod o 4 mis, neu, os yw'n fyrrach, gweddill ei dymor yn y swydd.

Apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgor Safonau:

1)**Cyn Gynghorydd Louise Thomas -Cyngor Cymuned y Mwmbwls**
Panel Dyfarnu Cymru (gov.wales)
"Penderfyniad y tribiwnlys Apêl yw cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Safonau;

9.8.1 Bod Cyn Gynghorydd Thomas wedi torri amodau Paragraffau 6(1)(a) a 6 (1)(d) Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls.
9.8.2 Bod cyn Gynghorydd Louise Thomas yn cael ei cheryddu'n ffurfiol yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) am dorri amodau paragraffau 6 (1)(a) a 6 (1)(d) o'r Cod Ymddygiad. 9.8.3 Pe bai'r cyn-gynghorydd Louise Thomas yn dal i fod yn Gynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu, byddai'r Tribiwnlys Apêl wedi argymell bod y Pwyllgor Safonau yn gosod gwaharddiad o 6 mis, sef y cyfnod uchafswm o waharddiad y gallai'r Pwyllgor ei osod."

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.
Nac oes
Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	**Ddim yn berthnasol**
Cydweithio:	**Ddim yn berthnasol**
Cysylltiad:	**Ddim yn berthnasol**
Atal:	**Ddim yn berthnasol**
Integreiddio:	**Ddim yn berthnasol**

Argymhelliad/Argymhellion:
Nodi cynnwys yr adroddiad.

Enw Cyswllt: Elin Prysor

Swydd: Swyddog Monitro

Dyddiad yr Adroddiad: 7/6/24

Acronymau: